# BLEDDYN FARDD (fl. 1268-1283), un o feirdd y tywysogion

**Enw:** Bleddyn Fardd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** un o feirdd y tywysogion
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Evan David Jones

Cadwyd 13 o'i awdlau yn NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd.

Canai yn arbennig i feibion Gruffydd ap Llywelyn ab Iorwerth ac i uchelwyr Gwynedd, ond y mae ganddo un awdl i Rys Amharedudd ap Rhys o Ddeheubarth. Canu i wyr yw'r cwbl o'i waith ac eithrio'r farwysgafn. Yr awdl gyntaf o'i waith y gellir ei dyddio yw ei farwnad i Oronwy ab Ednyfed (bu farw 1268), a'r olaf yw ei awdl i dri mab Gruffudd ap Llywelyn wedi dienyddio'r tywysog Dafydd yn 1283.

Gwr arall oedd y Bleddyn Fardd y canodd Cynddelw Brydydd ei farwnad.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


Archifau LlGC: NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (1931)

J. Vendryes, 'Poemes de Bleddyn Vardd,' yn *Revue Celtique* (1870–1934), xlix, 189-264


## Darllen Pellach


Rhian M. Andrews (gol.), *Gwaith Bleddyn Fardd a beirdd eraill ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg* (Caerdydd 1996)

Erthygl Wicipedia: Bleddyn Fardd


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3331138


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu